

Cylchlythyr Ionawr



Mae wedi bod yn ddechrau gwyh i'r flwyddyn yn Ysgol Gynradd Llanrhaeadr ym Mochnant.

Dechreuodd gyda **diwrnod hyfforddi** ble fynychodd y staff addysgu diwrnod hyfforddi clwstwr Llanfyllin gyda ffocws ar fathemateg. Y syniad y tu ôl i'r dull newydd a'r cwricwlwm newydd (i'w lansio yn 2021) yw creu tasgau mwy cyfoethog i ddisgyblion, sefyllfaoedd go iawn ble mae'r disgyblion yn deall y prosesau sydd eu hangen i ddatrys problemau. Mae'r staff yn edrych ymlaen i ddefnyddio'r dull newydd hwn ac eisoes rydym wedi gweld canlyniadau a safonau chadarnhaol a mwynhad gan y disgyblion.

Mae'r disgyblion wedi dechrau dysgu am '**Ddreigiau**' yn y Cyfnod Sylfaen a '**Thrychinebau**' yng CA2.

Yn y **Cyfnod Sylfaen**, mae blynyddoedd 1 a 2 wedi mwynhau creu mapiau o gestyll Cymru gan ddefnyddio eu sgiliau TGCh. Yng ngwersi iaith, bu'r disgyblion yn disgrifio lluniau ei gilydd, ysgrifennu llythyron i ddarganfod mwy o wybodaeth am gestyll a chydweithio ar-lein i rannu cwestiynau am ddreigiau. Yng ngwersi mathemateg, bu'r disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth o siapiau 2D i greu cestyll a dreigiau ac maent wedi defnyddio cyfarwyddiadau cwmpawd wrth edrych ar fapiau o Gymru.

Yn **CA2**, bu'r disgyblion yn brysur yn ysgrifennu llythyron o safbwynt cymeriad yn eu nofelau dosbarth am y term, 'Cwmwl Dros y Cwm'. Yng ngwersi Mathemateg, bu'r disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth o debygolrwydd i ddatrys problemau trychinebau ac i ddatrys heriau codio gan ddefnyddio Microbit. Maent hefyd wedi bod yn brysur yn arbrofi yng ngwersi gwyddoniaeth, gan ddefnyddio'r offer newydd a brynwyd gan y CRhA i ymchwilio pam mae pengwiniad yn cuddio.

Mae Miss Watkins yn parhau i wella cyfleoedd **TGCh** rhagorol y mae'r disgyblion yn eu cael yn ein hysgol ni. Rydym wedi bod yn ddigon ffodus i fenthycu set o robotiaid Edison am y tymor ac mae'r disgyblion yn gyffrous iawn i'w defnyddio! Mae hefyd yn amser cyffrous i Miss Watkins, gan ei bod hi'n gallu ymweld â sioe BETT (Hyfforddiant a Thechnoleg Addysg Prydain) yn Llundain. Mae'n ymweliad gwerthfawr o ran gweithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FCD). O ganlyniad i'r ymweliad, bydd y disgyblion yn gallu datblygu eu sgiliau TGCh mewn sawl ffordd newydd megis codio prosiectau newydd a chyffrous ar Minecraft, gan ddefnyddio ystafelloedd dosbarth ar-lein mewn timau Microsoft, datblygu sgiliau codio ar draws y cwricwlwm ac arbrofi gyda gwahanol fathau o robotiaid. Fe allaf hefyd dynnu eich sylw at gylchlythyr digidol llawn gwybodaeth, a gynhyrchodd yr arweinwyr digidol ychydig cyn y Nadolig. Gallwch gael mynediad ato drwy ymweld â'n gwefan o dan 'cynghorau' ac yna 'arweinwyr digidol'. Nodwch y negeseuon pwysig sy'n ymwneud â diogelwch ar y rhyngwyd a byddwn yn tynnu sylw atynt yn y dyfodol agos.

Nid oes llawer o **ddigwyddiadau chwaraeon** i'w adrodd yr adeg hon o'r flwyddyn. Fodd bynnag, bu rhai disgyblion yn cynrychioli'r ysgol mewn twrnament pêl-rwyd Campau'r Ddraig yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin, gan ennill 4 gêm a chymhwysu ar gyfer rownd gogledd Powys ym mis Chwefror. Am resymau amlwg, rwyf bob amser yn falch iawn o weld bod ein cyn ddisgyblion yn parhau i wneud mor dda mewn chwaraeon yn yr ysgol uwchradd. Llongyfarchiadau i Ffion Suckley-Jones am ennill ras traws gwlad blwyddyn 7 yn y Drenewydd ac felly'n gymwys ar gyfer y rownd derfynol genedlaethol yn Aberhonddu.

Mae wedi bod yn fis brawychus o ran **salwch a thywydd garw**. Roedd firws cas wedi taro'r disgyblion a'r staff yn galed yr wythnos diwethaf, ond roedd gwytnwch a hyblygrwydd y disgyblion a'r staff yn yr ysgol yn ganmoladwy. Cawsom ddiwrnod tawel ar y 23ain hefyd oherwydd yr eira a'r rhew. Byddwn bob amser yn gwneud penderfyniad gyda diogelwch disgyblion, rhieni a staff mewn golwg. Os bydd yn rhaid i ni gau, byddwn yn ymdrechu i wneud penderfyniad cynnar ac yn eich hysbysu trwy e-bost, Facebook, Twitter, gwefan a system gau Powys. Os nad oes neges i hysbysu ein bod ar gau, hybwch ein bod ar agor a gwnewch benderfyniad synhwyrol ynghylch eich taith mewn amgylchiadau peryglus.

Fel y soniwyd yn gynharach, boom yn ffodus i gael offer gwyddoniaeth newydd, a brynwyd gan ein grŵp **CRhA** gwych. Maent yn gweithio'n galed i drefnu digwyddiadau a chodi arian sydd ei angen yn fawr er mwyn i'r disgyblion yn Llanrhaeadr allu cael profiadau dysgu gwell. Gwerthfawrogi eich cyfraniad a'ch cefnogaeth yn y cyfarfod nesaf **ddydd Mawrth 5ed Chwefror am 7y.h.** yn yr ysgol.

Ers sefydlu **cyngor ysgol** newydd ym mis Medi, mae'r pwyllgor a'r is-bwyllgorau wedi bod yn brysur yn meddwl ac yn rhoi syniadau ar waith i helpu i wella bywyd ysgol, megis:

- Milltir Dyddiol- Mae disgyblion CA2 wedi bod yn rhedeg milltir o leiaf ddwywaith yr wythnos (Cyngor Bwyd a Ffitrwydd)
- Datblygu tŷ bach twt fel lle i fynd os yw disgyblion yn teimlo'n drist (Cyngor KiVA)
- Creu wal Skype i olrhain yr holl wledydd yr ydym wedi cysylltu â nhw (Arweinwyr Digidol)
- Diwrnod Shwmae, Pawen Lawen ar gyfer Plant mewn Angen a Thocyn Iaith (Cryw Cymraeg)
- Gofynnwyd am syniadau newydd i ddatblygu ardal y tu allan trwy grant (Cyngor Eco)

Da iawn i'n grwpiau blynyddoedd 3 a 4 a grwpiau blynyddoedd 5 a 6 a gymerodd ran yn rownd gyntaf **cwis llyfrau** Cymru. Yn anffodus, ni wnaethon fynd ymlaen i rownd 2 eleni ond canmolwyd y disgyblion ar eu hymdrechion.

Ar ôl cychwyn mor wych i'r flwyddyn, rydym oll yn edrych ymlaen at yr hyn a ddaw ym mis Chwefror. Bydd uchafbwyntiau'n cynnwys ymweliad y 'Bwmbocs' Cymreig, rownd derfynol Pêl-rwyd y Ddraig a chystadleuaeth Dawns yr Urdd. Nodwch dyddiadau pwysig a restrir isod.

Cofion,



Mr Jonathan Richards

Mer 5ed Chw	Diwrnod Rhyngrwyd Diogel Ymweld â Bwmbocs Cymru Cyfarfod CRhA 7yp	Hysbysiadau Clwb yr Urdd Dydd Mercher tan 4.15yp Clwb Ddawns Greadigol Dydd Iau tan 4.15yp Batris Rydym yn dal i gasglu batris a ddefnyddir i helpu i godi arian i'r ysgol. Cadwch nhw yn dod! Celf a Chrefft Yr Urdd Amgaeaf taflen wybodaeth Rhowch wybod i ni beth yw eich barn chi am y newyddlen newydd. Cysylltwch â ni gydag unrhyw ymholiadau ar 01691780352 neu office@llanrhaeadr.powys.sch.uk
Gwe 15ed Chw	Terfynol Pêl-rwyd y Ddraig	
Iau 21ain Chw	Cystadleuaeth Dawns yr Urdd	
Gwe 22ain Chw	Athletau Dan Do @ Llanfyllin (Bl. 5/6)	
25-29ain Chw	Gwyliau Hanner Tymor	
Mer 6ed Maw	Eisteddfod yr Ysgol	
Iau 7fed Maw	Diwrnod y Llyfr Traws Gwlad @ Fordwn	
Mer 13eg Maw	Gala Nofio WASPS @ Y Trallwng	
Iau 14eg Maw	Traws Gwlad @ Llanfyllin	
Sad 16eg Maw	Eisteddfod yr Urdd Myllin	
Iau 21ain Maw	Traws Gwlad @ Llanfair Caereinion	
Gwe 29ain Maw	Traws Gwlad WASPS @ Welshpool	
Sad 30ain Maw	Eisteddfod yr Urdd Sir	